| Sesiwn Gwrandawiad 5: Yr Economi – Cyflogaeth, Manwerthu a Thwristiaeth | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Pwnc** | **Pwynt Gweithredu** | **Amserlen** |
| S5/PG1 | PS10/CYF1/CYF4 | Cyflwyno papur esboniadol ychwanegol sydd yn manylu ymhellach y cyfiawnhad meintiol ynghyd ag ansoddol ar gyfer cyfanswm y safleoedd cyflogaeth a warchodir, a ddynodir, ac sydd wrth gefn o fewn y Cynllun ym Mholisi CYF1, gan roi sylw i'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am ofynion Horizon Nuclear Power Ltd, er mwyn:<br>• amlygu pwrpas safleoedd a ddangosir ym Mholisi CYF 1 o'r Cynllun,<br>• gwella dealltwriaeth o beth olygir gyda datblygiad 'yn gysylltiedig gyda Rhaglen Ynys Ynni', a<br>• gwella dealltwriaeth o ba fath o safleoedd a allai ddisgyn o fewn cylch gorchwyl Polisi CYF 4 (pe fyddai cynnig i waredu rhan o safle neu safle cyfan i ddefnydd amgen):<br>Wrth gynnal y gwaith hwn roddir gwybodaeth ynglŷn â gofynion isadeiledd, yr amserlen gysylltiedig i wireddu datblygiad ar y safleoedd , unrhyw fecanweithiau, a chyllid.Cynnwys eglurhad pellach o fewn y polisi i'r meini prawf a restrir ym Mholisi CYF4. Ynghyd ag ystyried os oes angen 'neu' yntau 'a' o ran y meini prawf ym Mholisi CYF4. | Erbyn 14/10 |

| Sesiwn Gwrandawiad 5: Yr Economi – Cyflogaeth, Manwerthu a Thwristiaeth | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Pwnc** | **Pwynt Gweithredu** | **Amserlen** |
| S5/PG2 | Papur Eglurhad Safleoedd Cyflogaeth (Amec) | Darparu map i ddangos y tir a warchodir, a ddynodir ac sydd wrth gefn yng Ngaerwen.<br><br>Egluro y gwahaniaeth rhwng tir gwyrdd gwag sydd yn dir wedi ei warchod ac wedi ei ddynodi | Erbyn 30/9 |
| S5/PG3 | Polisi CYF1 -Dynodiad cyflogaeth C14 a C15 | Darparu copi o rannau perthnasol Adroddiad yr Arolygydd i Gynllun Datblygu Unedol Môn (wedi ei stopio) sydd yn ymwneud hefo safle cyflogaeth Lledwigan a thir yr Hufenfa yn Llangefni (safleoedd C14 a C15 ym Mholisi CYF 1 yn y drefn honno). | Erbyn 23/9 |
| S5/PG4 | Tir cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig | Darparu papur i egluro sut mae'r Cynllun yn darparu ar gyfer tir cyflogaeth yn ardaloedd gwledig, gan gyfeirio yn benodol at ardal Meirionnydd, Gwynedd. | Erbyn 7/10 |
| S5/PG5 | PS12 | Paratoi papur sy'n diweddaru'r Asesiad Manwerthu Gwynedd a Môn er mwyn rhoi ystyriaeth i'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â gofynion yn gysylltiedig â Wylfa Newydd. | Erbyn 14/10 |
| S5/PG6 | PS12 | Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i nodi pryd ddisgwylir i'r gofod manwerthu o'r newydd ddod yn ei flaen er mwyn adlewyrchu gwybodaeth yr Asesiad Manwerthu Gwynedd a Môn. | Erbyn 30/9 |
| S5/PG7 | MAN1 | Cyflwyno copi cyflawn o Bolisi MAN1 yn cynnwys y Newidiadau Materion sy'n Codi. | Erbyn 23/9 |

| Sesiwn Gwrandawiad 5: Yr Economi – Cyflogaeth, Manwerthu a Thwristiaeth | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Pwnc** | **Pwynt Gweithredu** | **Amserlen** |
| S5/PG8 | MAN1, para 7.3.87 | Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi sydd yn (i) cael gwared o "yn ddelfrydol" er mwyn rhoi arweiniad sy'n gyson â geiriad Polisi MAN1, a (ii) chyfeirio at Ganolfannau Fanwerthu Drefol yn hytrach na Chanolfannau Rhanbarthol Trefol. | Erbyn 30/9 |
| S5/PG9 | MAN3, para 7.3.98 | Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi sydd yn cywiro paragraff 7.3.98 i gyfeirio at 2,500 m sg wrth son am yr angen am asesiad effaith manwerthu. | Erbyn 30/9 |
| S5/PG10 | PS11 | Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i gyfeirio at Ganolfan Gwasanaeth Lleol yn lle Canolfan Gwasanaeth Gwledig ym maen prawf 2 o Bolisi PS11. | Erbyn 30/9 |
| S5/PG11 | TWR1/ 7.3.54 | Cyflwyno Newidiadau Materion sy'n Codi i:<br>(i) egluro nad oes rhaid i gynigion gydymffurfio gyda meini prawf 4 - 8 i gyd.<br>(ii) ychwanegu "neu ei agosatrwydd i'r atyniad y mae'n gysylltiedig ag ef." i ddiwedd maen prawf 3.<br>(iii) Ychwanegu geirfa i baragraff 7.3.54 i gyfeirio at enghreifftiau o ddatblygu sydd angen lleoliad yng nghefn gwlad. | Erbyn 23/9 |
| S5/PG12 | Paragraff 7.3.66 (TWR3) | Cyflwyno Newidiadau Materion sy'n Codi i gadarnhau nad ydi'r 10% o gynnydd yn y nifer o leiniau ddim yn rhagnodol/ o reidrwydd yn uchafswm.  Angen cadarnhau mai10% ydi'r man cychwyn wrth ddelio gyda cheisiadau i ymestyn safleoedd perthnasol o dan Bolisi TWR 3 | Erbyn 23/9 |

| Sesiwn Gwrandawiad 5: Yr Economi – Cyflogaeth, Manwerthu a Thwristiaeth | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Pwnc** | **Pwynt Gweithredu** | **Amserlen** |
| | | carafanau sefydlog. | |